



Apêl Ardal Dolwyddelan

Annwyl gyfaill,

Ydych chi yn gwybod fod yr Eisteddfod Genedlaethol, gŵyl flaenaf Cymru yn dod i Sir Conwy a thref Llanrwst yn 2019? Mae'r broses o drefnu'r ŵyl yn brosiect cymunedol enfawr ynddo'i hun, ac yn gyfle gwych i'r dalgylch drefnu a mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol i godi arian ac ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi pennu targed o £320,000 i'r gronfa leol, sef y cyfraniad lleol i gost yr ŵyl. Gosodwyd cyfran o hyn, sef £5,000 ar gyfer ein hardal ni.

Ysgrifennaf atoch i ofyn a fyddech mor garedig ac ystyried cyfrannu at ymdrech ardal Dolwyddelan i'n cynorthwyo i gyrraedd ein targed. Cam o'r mwya' ar ein rhan fyddai i beidio rhoi'r cyfle yma i chi ddangos cefnogaeth i'r Ŵyl oherwydd bod neb wedi gofyn, felly dyma eich cyfle!

Mae modd cefnogi yn ariannol mewn dwy ffordd:

Un taliad (darn uchaf y ffurflen atodol)

Ar gyfer gwneud un cyfraniad tuag at gronfa leol yr Eisteddfod. Sיעiaiu yn daladwy i "**Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019**".

Fodd bynnag, os hoffech dalu drwy Debyd Uniongyrchol neu archeb banc dros gyfnod o amser o'ch dewis chi, gweler rhan isaf y ffurflen.

Rhodd Gymorth: Os ydych yn talu treth incwm, yr ydych yn gymwys i gwblhau'r Datganiad Rhodd Gymorth, fydd yn galluogi'r Eisteddfod fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) i hawlio'n ôl gan Gyllid y Wlad 25c am bob punt a roddir **heb gost ychwanegol i chiwi**. **Bydd eich cyfraniad yn ogystal â'r ad-daliad rhodd gymorth yn cyfrif tuag at ein targed.**

Bydd **pob cyfraniad dros £50** yn cael ei gofnodi yn Rhaglen yr Eisteddfod, a bydd pob **rhodd fel gwobr** yn ymddangos yn yr adran berthnasol yn y Rhestr Testunau a'r Rhaglen. **Bydd pob ceiniog yn cyfrif tuag at darged ein hardal.**

Os ydych yn dymuno cyfrannu, cysylltwch â mi plis, neu gallwch lenwi'r darn/au berthnasol o'r ffurflen atodol â'i dychwelyd ynghyd â'r taliad yn ôl i Drysorydd y Pwyllgor os gwelwch yn dda: **Mr Ian Chapman, Y Neuadd Lwyd, Church Street, Dolwyddelan, LL25 0SJ**
Rhif ffon 01690 750-440

Os hoffech i'ch cyfraniad gael ei gyflwyno fel gwobr mewn cystadleuaeth yn yr Eisteddfod, cysylltwch yn uniongyrchol â Swyddfa'r Eisteddfod yn gyntaf ar 0845 40 90 400 neu alwyn@eisteddfod.org.uk i weld pa wobrau sydd yn weddill.

Ymunwch â'r ymdrech a mwynhewch y boddhad o wybod y byddwch wedi gwneud eich rhan er mwyn sicrhau llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019. Am wybodaeth bellach am yr ymdrech yma yn Noldwyddelan, e bostiwch **gwenno_p@outlook.com**. Diolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Yn gywir iawn,

Cadeirydd Pwyllgor Apêl Dolwyddelan (Mr Gwyn Roberts)

Trysorydd (Mr Ian Chapman)

Cyd-ysgrifenyddion (Mrs Gwenno Lois Hughes a Mrs Bethan Wyn Jones)

Mae Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 yn is-adran o Eisteddfod Genedlaethol Cymru, sydd yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Rhif elusen gofrestredig 1155539



Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy
Conwy County National Eisteddfod
2-10 Awst / August 2019

Ffurflen Cyfrannu 2019
Rhodd Gymorth - ychwanegwch 25% i'ch rhodd

Tro Sir Conwy yw hi i groesawu yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2019. Gyda'r Eisteddfod fel sefydliad yn costio dros £4 miliwn mae gan y dalgylch darged o £320,000 i'w gyrraedd fel cronfa leol. Gyda'r cynllun rhodd gymorth byddwn fel sefydliad corfforedig elusennol yn medru derbyn ad-daliad treth o 25% gan yr HMRC ar yr amod eich bod yn talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf o fewn y Deyrnas Unedig. Mi fydd y cyfraniad ychwanegol yma o gymorth mawr i ochr gyllidol yr Eisteddfod hon, felly os yn gymwys fe'ch anogir i lofnodi'r datganiad

1 MANYLION Y RHODDWR

Enw llawn
Cyfeiriad

Côd Post

2 MANYLION EICH CYFRANIAD (ticiwch y blwch perthnasol) (SIECIAU YN DALADWY I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2019)

Amgaeaf y swm o £ : c yn Arian Siec Archeb Banc (gweler rhan 4)
i Bwyllgor Apêl (gweler drosodd)

Manylion i ymddangos yn rhestr 'Rhoddion i'r Gronfa Leol' yn y Rhaglen (e.e John a Mary Ellis, Llanllonnydd neu di-enw)

3 DATGANIAD RHODD GYMORTH (*i'w ddileu fel sy'n briodol)

* Dymunaf i Eisteddfod Genedlaethol Cymru drin fy rhodd fel Rhodd Gymorth.

* Ni ddymunaf i Eisteddfod Genedlaethol Cymru drin fy rhodd fel Rhodd Gymorth.

Arwyddwyd

Dyddiad

Yr wyf yn derbyn bod rheidwydd arnaf i dalu swm o dreth sydd o leiaf yn cyfateb i'r swm fydd yr Eisteddfod yn ei hawlio o'r rhodd hon. (25c am bob £1 ar hyn o bryd).

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd. CF14 5DU

Rhif SCE: 1155539

4 ARCHEB BANC

I Reolwr Banc Cangen

Cyfeiriad

Taler i gyfrif **Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019** (HSBC 40-16-13 Cyfrif 61455613)

y swm o £ am o fisoedd / flynyddoedd* (*i'w ddileu fel yn briodol)

i ddechrau ar y o (dyddiad a mis)

Enw

Cyfeiriad

Rhif eich cyfrif Côd didoli

Llofnod Dyddiad

DYCHWELER I SWYDDFA'R EISTEDDFOD, UNED 15 PARC BUSNES, YR WYDDGRUG, SIR Y FFLINT. CH7 1XP